Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Mehefin 2018

Annwyl Gyfaill

Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i **amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.**

Cylch gorchwyl

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad:

- Deall pwysigrwydd amrywiaeth ymhlith cynghorwyr lleol, gan gynnwys yr effaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd, trafod a gwneud penderfyniadau.
- Deall y prif rwystrau i ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.
- Trafod meysydd arloesedd ac arfer da a all helpu i gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol.
- Trafod effaith bosibl y cynigion ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, Cryfhau Llywodraeth Leol i gynyddu amrywiaeth yn siambrau'r Cyngor.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Llun 10 Medi 2018.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Arolwg ar-lein

Fel arall, os byddai'n well gennych ymateb i'n holiadur ar-lein, sy'n gofyn cwestiynau manylach am lywodraeth leol yn eich cymuned a'ch profiadau chi, cliciwch ar y linc isod.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/SYLMG7P

Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i rai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliad.cymru/PrifatrwyddYmchwiliadau. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
Rhif ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau